

Cyngor Bro Morgannwg

Fformiwla Ariannu Ysgolion Prif Ffrwd 2022/23



Fformiwla Ariannu Prif Ffrwd Cyngor Bro Morgannwg

Cynnwys

1. Cyflwyniad	Tudalen 3
2. Cyllideb yr Ysgol	Tudalen 3
3. Niferoedd disgyblion	Tudalen 5
4. Uned Disgyblion a Bwysolir yn ôl Oedran (UDBO)	Tudalen 7
5. Dyraniadau arwynebedd llawr	Tudalen 8
6. Cyllid ADY	Tudalen 9
7. Dyrannu cyfandaliadau	Tudalen 12
8. Arlwy a chlybiau brechwast	Tudalen 15
Dadansoddiad o'r UDBO Cynradd	Atodiad A
Dadansoddiad o'r UDBO Uwchradd	Atodiad B
Crynodeb Fformiwla Ysgolion Prif Ffrwd	Atodiad C

Fformiwlâ Ariannu Ysgolion Prif Ffrwd Cyngor Bro Morgannwg

1. Cyflwyniad

Lluniwyd y fformiwlâ hon gan y grŵp adolygu fformiwlâ ariannu ysgolion Prif Ffrwd (is-grŵp o Fforwm y Gyllideb) yn dilyn adolygiad 2016/17 o'r fformiwlâ ariannu ar gyfer ysgolion yn unol â Chynllun Ariannu Teg Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Ysgolion, Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cafodd y fformiwlâ hon ei hadolygu a'i diwygio trwy gydol blyneddodded ariannol 2017/18 i 2021/22 gan Fforwm y Gyllideb. Caiff y fformiwlâ hon ei hadolygu'n barhaus a bydd yn parhau i fod yn eitem flynyddol ar raglen waith Fforwm y Gyllideb er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol ac yn ymateb i newidiadau i'r cyllid a ddarperir gan lywodraeth ganolog.

2. Cyllideb

Cymeradwywyd cyllideb 2022/23 gan y cabinet ar 28 Chwefror 2022 a'r Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2022. Mae'r Cyngor wedi dyfarnu cynnydd o £6,431,000 i'r gyllideb ysgolion a dyfarnwyd £5,028,000 o'r swm hwnnw i'r sector prif ffrwd fel y crynhoir yn y tabl isod.

Twf y Gyllideb Ysgolion	Sector Prif Ffrwd	Sector Arbennig	Cyfanswm
Chwyddiant Cyflog	£2,501,000	£243,000	£2,744,000
Cynnydd Yswiriant Gwladol	£577,000	£60,000	£637,000
Twf Demograffig	£1,000,000	£1,000,000	£2,000,000
Cymorth prif ffrwd ADY	£500,000		£500,000
Prydau ysgol am ddim	£350,000		£350,000
Dosbarth Dysgu a Llesiant		£100,000	£100,000
Canolfan Awtistiaeth Whitmore	£100,000		£100,000
CYFANSWM y Cynnydd	£5,028,000	£1,403,000	£6,431,000

Noder – roedd yr amcangyfrif o chwyddiant cyflog a ddyfarnwyd yn y gyllideb o £2,744,000 yn seiliedig ar amcangyfrif o 3% ar gyfer staff addysgu o fis Medi 2022 a 3% ar gyfer staff nad ydynt yn staff addysgu o fis Ebrill 2022.

Trosglwyddwyd y symiau canlynol o'r gyllideb ysgolion

- Creu cronfa amnewid dyfeisiau defnyddwyr hwb TGCh £320,000
- Creu cronfa ddatgarboneiddio i ysgolion £ 25,000
- Staffio unedau adnoddau heb eu dirprwyo £ 19,000

Gwnaed y trosglwyddiadau canlynol rhwng y gyllideb ysgolion prif ffrwd a'r gyllideb ysgolion arbennig

- Trosglwyddo canolfan adnoddau Gladstone 5/12 £171,000

Nid oes unrhyw arbedion effeithlonrwydd wedi eu dyrannu i'r gyllideb ysgolion Prif Ffrwd ym mlwyddyn ariannol 2022/23

Crynodeb o'r symudiad ar y Gyllideb Ysgolion Prif Ffrwd

	£'000
Cyllideb Ysgolion Prif Ffrwd 2021/22	87,163
Cynnydd	5,028
Trosglwyddiadau o'r gyllideb ddirprwyedig	(364)
Trosglwyddiad i'r sector Arbennig	(171)
Arbedion Effeithlonrwydd	0
Cyllideb Ysgolion Prif Ffrwd 2020/21	91,656
Cynnydd	5.2%

3. Niferoedd Disgyblion

Er mwyn sicrhau bod gan ysgolion ddigon o arian i dalu am y niferoedd a dderbynnir ym mis Medi, mae'r arian a geir yn seiliedig ar gyfrifiad ar gyfer niferoedd disgyblion wedi'u haddasu. Cyfrifir niferoedd disgyblion wedi'u haddasu fel y dangosir isod

- Nifer bresennol ar y gofrestr (dylai gyfateb i CYBLD heb ei wirio ar gyfer mis Ionawr 2022)
- Yn ogystal â 50% o'r nifer a ragamcenir ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar y gofrestr (Ionawr 2023)
- Namyn 50% o'r flwyddyn flaenorol (2021) a amcanestynwyd ar gyfer y flwyddyn bresennol (Ionawr 2022)

Mae ychwanegu 50% o'r amcanestyniad ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn sicrhau bod gan yr ysgol ddigon o arian i reoli'r niferoedd a dderbynnir ym mis Medi. Bydd didynnu 50% o amcanestyniad y flwyddyn flaenorol yn sicrhau adfachu awtomatig ar gyfer ysgolion a oedd wedi gor-amcanestyn niferoedd disgyblion ynghyd â dyraniad ychwanegol ar gyfer y rhai lle'r oedd niferoedd disgyblion yn fwy na'r amcanestyniad.

Nodir y cyfrifiad wedi'i addasu o niferoedd disgyblion ar gyfer fformiwla prif ffrwd 2022/23 yn y tabl isod.

	Ionawr 2022 (Nifer ar y Gofrestr/CY BLD)	Ionawr 2022 (Amcangyfrif f Blaenorol)	Amcangyfrif Ionawr 2023	Niferoedd Disgyblion wedi'u Haddasu
		- 50%	+ 50%	
Cynradd/Meithrin	12,436	12,552	12,450	12,385
Uwchradd (Blwyddyn 7-11)	8,239	8,348	8,475	8,302
CYFANSWM	20,675	20,900	20,925	20,687

Sylwer – heb gynnwys Ôl-16 sy'n cael ei ariannu gan y grant Ôl-16

Mae'r tabl isod yn dangos y lleihad cyffredinol yn y niferoedd disgyblion a addaswyd o fformiwla 2021/22 i fformiwla 2022/23.

Fformiwla ariannu ysgolion prif ffrwd 2022/23

	Nifer disgyblion a addaswyd 21/22	Nifer disgyblion a addaswyd 22/23	Symudiad
Meithrin/Cynradd	12,509	12,385	(124)
Uwchradd	8,239	8,302	63
CYFANSWM	20,748	20,687	(61)

4. Uned Disgyblion a Bwysolir yn ôl Oedran (UDBO)

Yn unol â Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, rhaid dyrannu o leiaf 70% o'r gyllideb ysgolion dirprwyedig trwy niferoedd disgyblion. Dylai'r dyraniad hwn gael ei bwysoli yn ôl oedran i gyfrif am y gwahanol lefelau o gyllid sy'n ofynnol trwy'r gwahanol grwpiau blwyddyn. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi dyrannu 72.40% o'r gyllideb ysgolion trwy'r UDBO.

Ar gyfer pob disgybl amser llawn, bydd ysgol yn derbyn dyraniad Uned Disgyblion a Bwysolir yn ôl Oedran (UDBO) fel y dangosir yn y tablau isod.

Uned Disgyblion a Bwysolir yn ôl Oedran Cynradd (UDBO)

	Meithrin	Dosbarth Derbyn	Blwyddyn 1-2	Blwyddyn 3-6
Dyraniad Disgybl	£3,116.12	£3,207.16	£2,792.43	£2,551.46

Dangosir dadansoddiad llawn o'r UDBO Cynradd yn **Atodiad A**.

Uned Disgyblion a Bwysolir yn ôl Oedran Uwchradd (UDBO)

	Blwyddyn 7-9	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
Dyraniad Disgybl	£3,449.63	£4,531.70	£4,673.40

*Sylwer – mae disgyblion chweched dosbarth yn cael eu hariannu gan grant ôl-16 Llywodraeth Cymru ac nid ydynt yn cael eu cyfrif yn y fformiwla hon.

Dangosir dadansoddiad llawn o gyfrifiad uwchradd yr UDBO yn **Atodiad B**.

5. Dyrannu Arwynebedd Llawr

I gyfrif am gostau ysgol sy'n dibynnu ar faint adeilad yr ysgol a'i thiroedd; mae'r dyraniadau canlynol wedi'u cynnwys yn y fformiwla.

Sail	Dyraniad	Yn Cynnwys
Arwynebedd y Llawr Mewnol	£18.43 y m2 Cyfrifwyd y swm hwn yn wreiddiol drwy ystyried gwariant gwirioneddol pob ysgol a'i rannu â'r arwynebedd llawr cyfan.	Atgyweiriadau, cynnal a chadw, diogelwch, glanhau, sbwriel, ailgylchu, cyfleustodau. Ariennir oddeutu 50% o'r costau hyn trwy'r UDBO ac ariennir y 50% sy'n weddill trwy'r dyraniad arwynebedd llawr hwn.
Arwynebedd y tiroedd allanol	£0.42 y m2	Cynnal a Chadw'r Tir

Sylwer – mae ysgolion yn derbyn £800 ychwanegol yr un i ariannu costau ailgylchu bwyd

6. Cyllid ADY

Mae Cyllid Prif Ffrwd ADY wedi'i rannu'n bedwar maes

- i. Cyllid ADY dirprwyedig ar gyfer unedau adnoddau ac allgymorth
- ii. Y Gronfa Anghenion Ychwanegol (CAY) Cynradd
- iii. Cyllid ADY Prif Ffrwd Cynradd
- iv. Cyllid ADY Prif Ffrwd Uwchradd

i. Cyllid ADY dirprwyedig ar gyfer unedau adnoddau a darparu allgymorth

Mae'r cyllid canlynol wedi'i ddirprwyo i ysgolion prif ffrwd i reoli darpariaeth ADY ar ran yr Awdurdod Lleol.

	Lleoliadau	Cyllid
Parc Jenner - Gwybyddiaeth ac anawsterau dysgu	22	£302,411
Parc Jenner - allgymorth ADY		£80,705
High Street - Lles/trawma (anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol)	8	£150,883
St Cyres - Anawsterau corfforol a meddygol cymhleth	7	£160,131
Canolfan awtistiaeth Whitmore	20	£378,274
CYFANSWM Dirprwyedig		£1,072,404

Sylwer – Mae unedau adnoddau Gladstone ar gyfer lles a thrawma, canolfan adnoddau awtistiaeth St Illtud a'r Ganolfan Ymyrraeth Gynnar (CYG) yn ysgol gynradd Sant Joseff bellach i gyd wedi'u dirprwyo i Ysgol y Deri i'w rheoli o dan y Fformiwla Ysgolion Arbennig.

ii. Y Gronfa Anghenion Ychwanegol (CAY) Cynradd - £1.473M

Cyllideb a ddyrennir i ysgolion i gefnogi disgyblion â lefel uwch o anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd. Caiff y cyllid CAY a ddyrennir fesul ysgol ei gyfuno'n un gyllideb a ddyrennir wedyn i ysgolion drwy'r Panel Cronfa Anghenion Ychwanegol.

Cyfanswm cyllideb y CAY gynradd yw £1.473 miliwn. Mae cyfuno'r gyllideb hon yn helpu ysgolion i liniaru risg ariannol unigol sy'n deillio o lefelau uchel o gymorth ADY. Dyrennir cyllid y CYA i ysgolion trwy'r UDBO – fel y nodir yn atodiad A.

iii. **Cyllid i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol prif ffrwd (ADY) yn y sector cynradd £1.546M**

Swm a ddyrennir i ysgolion i gefnogi disgyblion mewn addysg brif ffrwd sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dyrennir yr arian hwn fel y dangosir yn y tabl canlynol.

	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	UDBO
ADY prif ffrwd cynradd	1,485.66 fesul disgybl sydd ag CDU neu a nodwyd fel Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. (80% o gyfanswm y dyraniad cynradd) Nodyn – Nodwyd 841 o ddisgyblion ym mis Ionawr 2022	£23.95 fesul disgybl cynradd. (20% o gyfanswm y dyraniad cynradd)
	£1,249,440	£296,617

iv. **Cyllid i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol (ADY) prif ffrwd yn y sector uwchradd £2.129M**

Cyllideb wedi'i dyrannu i ysgolion uwchradd i gefnogi pob disgybl sydd ag ADY sy'n derbyn addysg brif ffrwd.

Mae cyfanswm y gyllideb sydd ar gael wedi'i rannu â nifer y disgyblion sydd â CDU, datganiadau neu wedi'u nodi fel Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Y Gyllideb sydd ar gael	£2,128,671
Disgyblion sydd ag CDU, datganiad neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	568

Fformiwla ariannu ysgolion prif ffrwd 2022/23

Cyllid fesul disgybl	£3,747.66
----------------------	-----------

7. Dyrannu Cyfandaliadau

I gyfrif am gostau waeth beth y bo maint yr ysgol a nifer y lleoedd sydd ganddi, mae'r dyraniadau cyfandaliad canlynol wedi'u cynnwys yn y fformiwla.

Dyraniad	Swm	Sail y Cyfrifiad
Pennaeth	Amrywiol	Canol ystod cyflog y Pennaeth. Nodiadau - Mae Ysgol Bro Morgannwg yn derbyn dau ddyraniad gan mae hi yw unig ysgol 3-19 oed gyfunol yr awdurdod. - Mae ysgolion uwchradd Pencoedtre a Whitmore yn derbyn dyraniad Pennaeth ychwanegol i ariannu'r Pennaeth Gweithredol dros y ddwy ysgol am gyfnod o bum mlynedd i sicrhau llwyddiant y cyfnod pontio i ysgol gymysg.
Gweinyddiaeth	Ar sail nifer y lleoedd yn yr ysgol Cynradd Llai na 421 £45,731 421 neu fwy £60,974 Uwchradd £152,435	Yn seiliedig ar aelod o staff gradd 6 mewn 1.5 CALI ar gyfer ysgolion cynradd <421, 2 CALI ar gyfer ysgolion cynradd >421 a 5 CALI ar gyfer ysgolion Uwchradd. (Mae'r dyraniad uwchradd yn cynnwys swyddog arholiadau) Noder - Dyraniad ychwanegol fesul disgybl yn gynwysedig yn yr UDDBO am weinyddu, sef £13.38 y disgybl.
Gwaith Gofalu	Ar sail capasiti'r ysgol Llai na 421 - £30,487 Llai na 701 - £45,731 701 neu fwy £53,352	Yn seiliedig ar aelod o staff gradd 6 ac 1 CALI ar gyfer ysgolion sydd â hyd at 421 o leoedd, 1.5 CALI ar gyfer ysgolion â hyd at 701 o leoedd, ac 1.75 CALI ar gyfer ysgolion â mwy na 701 o leoedd
CLGau	£15,466 fesul ysgol gynradd £27,826 fesul ysgol uwchradd	Cyfandaliad i ariannu ailgodi costau canolog a CLGau ar gyfer y gyflogres (Gwasanaethau Cyflogeion), Adnoddau Dynol, Credydwy, Cymorth cyllid

Fformiwlâ ariannu ysgolion prif ffrwd 2022/23

		ysgolion, Ffioedd trwyddedau, TGCh (cymorth sylfaenol), cymorth i Lywodraethwyr Uwchradd, GDPR ac E-Teach.
Trethi/Rhent/Yswiriant	Amrywiol	Taliadau amcanol gwirioneddol am drethi, rhent ac yswiriant safleoedd ysgolion sefydledig.
Adeiladau rhestredig	O £7,500 i £15,000	Yn seiliedig ar gost cynnal a chadw ac atgyweirio ychwanegol adeiladau ysgol rhestredig.
Trin dŵr gwastraff	O £1,000 i £4,500	Dyraniad i'r pum ysgol y mae'n ofynnol iddynt dalu am systemau trin dŵr gwastraff
Cyfieithu (Cymraeg)	Cynradd - cyfandaliad o £4,080 Ysgol 3-19 oed - £40,800	Cyfandaliad yn ychwanegol at ddyraniad fesul disgybl o £10.18 mewn ysgolion Cymraeg.
Ailgylchu Gwastraff Bwyd	£800 yr ysgol	Bydd ysgolion yn gyfrifol o fis Ebrill 2019 am gasglu gwastraff bwyd a reolid yn flaenorol gan Vale Catering Services.
Lwfans Dau Safle	£144,602 yr ysgol	Yn seiliedig ar ddirprwy bennaeth nad yw'n addysgu, a dyraniad ar gyfer gweinyddu a gofalu ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer dau safle.
Lwfans ysgolion llai	Nifer y disgyblion yn llai na 141 o ddisgyblion £53,198.90 211 o ddisgyblion £26,599.45	Diogelu Ysgolion Cynradd sy'n llai na'r maint gorau posibl o 210 o ddisgyblion (ac eithrio'r dosbarth meithrin). Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog athrawon. Un CALI ar gyfer ysgolion sydd â llai na 141 a 0.5 CALI ar gyfer ysgolion sydd â llai na 210.

Fformiwla ariannu ysgolion prif ffrwd 2022/23

Cyllid ar gyfer Cyfuno a Phontio	Amrywiol gan ddibynnu ar y gyllideb lai, fesul cam dros dair blynedd.	Cyflwyno'r gostyngiad yn y cyllid fformiwla i ysgolion fesul cam o ganlyniad i gyfuno neu bontio dros gyfnod o dair blynedd.
----------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

8. Dyraniadau Arlwyo a Chlybiau Brecwast

Nid oes cyllid arlwyo a chlybiau brecwast o fewn yr Unedau Disgyblion a Bwysolir yn ôl Oedran gan na fydd pob disgybl yn denu cyllid.

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut mae cyllid arlwyo a chlybiau brecwast wedi'i ddyrannu i ysgolion.

Sylwer – byddai'r cyfrifiad CYBLD diweddaraf fel arfer yn cael ei ddefnyddio i bennu lefel y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ond oherwydd yr oedi mewn gwybodaeth CYBLD o ganlyniad i bandemig Covid-19, yr adran Budd-dal Tai sydd wedi darparu'r cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim.

Dyraniad	Swm	Sail y cyfrifiad
Prydau Ysgol Uwchradd Am Ddim	£503.50 y disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim	Pris prydau £2.65 * 190 diwrnod masnachu.
Prydau Ysgol Cynradd Am Ddim	£465.50 y disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim	Pris prydau £2.45 * 190 diwrnod masnachu.
Clwb Brecwast	£61.54 y disgybl (a ddyrennir i ysgolion sy'n cynnal clybiau brecwast am ddim yn unig)	Dyrannwyd cyllideb o £668,095 trwy ddisgyblion mewn ysgolion cynradd sy'n cynnal darpariaeth clwb brecwast am ddim.

Codir tâl llawn ar ysgolion sy'n dewis y Cwmni Arlwyo Big Fresh am y swm llawn a ddirprwyir ar gyfer prydau ysgol am ddim ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Caiff arian a ddirprwyir ar gyfer clybiau brecwast am ddim ei gyfuno'n gronfa ganolog. Y cwmni arlwyo Big Fresh sy'n gyfrifol am fonitro darpariaeth y clwb brecwast mewn ysgolion.

Atodiad A**Dadansoddiad o Ddyraniad UDBO Cynradd**

	Meithrin	Derbyn	Blwyddyn 1-2	Blwyddyn 3-6	Nodiadau
Athrawon	£1,771.52	£1,771.52	£1,771.52	£1,771.52	Cymarebau addysgu o 1:30 a'r cyflog addysgu cynradd cyfartalog.
Cynorthwyr Cymorth Dysgu'r Cyfnod Sylfaen	£655.70	£655.70	£240.97		1:8 yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn ac 1:15 ym mlwyddyn 1 i 2. Mae hyn yn cyfrif am 35% yn unig gan fod tua 65% o'r gost hon yn cael ei dalu drwy Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol.
CPA Cynradd	£141.72	£141.72	£141.72	£141.72	Gweithio tuag at 10%
Technegwyr	£76.64	£76.64	£76.64	£76.64	1 technegydd i bob 360 o ddisgyblion
Gweinyddu	£13.38	£13.38	£13.38	£13.38	8% o'r gyllideb weinyddol (92% wedi'i dyrannu drwy ddyraniadau cyfandaliad)
Goruchwylwyr Canol Dydd		£91.04	£91.04	£91.04	1 goruchwylwr canol dydd i bob 45 disgybl.
Cyflenwi/Mamolaeth	£79.71	£79.71	£79.71	£79.71	
Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	£1.27	£1.27	£1.27	£1.27	
Adnoddau	£103.00	£103.00	£103.00	£103.00	
Safleoedd	£130.31	£130.31	£130.31	£130.31	Atgyweiriadau, Cynnal a Chadw, Diogelwch,

Fformiwla ariannu ysgolion prif ffrwd 2022/23

					Cyfleustodau, Glanhau, Sbwriel, Ailgylchu. Mae'r dyraniad hwn yn cyfrif am oddeutu 50% o gyfanswm y gyllideb safleoedd.
Y Gronfa Anghenion Ychwanegol	£118.92	£118.92	£118.92	£118.92	
ADY prif ffrwd	£23.95	£23.95	£23.95	£23.95	20% o gyllideb ADY prif ffrwd (y gweddill wedi'i ddyrannu gan CDU/SAP)
CYFANSWM	£3,116.12	£3,207.16	£2,792.43	£2,551.46	

Atodiad B**Dadansoddiad o Ddyraniad UDBO Uwchradd**

	Blwyddyn 7-9	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Nodiadau
Athrawon	£2,826.56	£3,770.63	£3,770.63	Cymarebau addysgu o 1:20 ym mlynnyddoedd 7-9 ac 1:15 ym mlynnyddoedd 10 ac 11. Defnyddio cyflog addysgu uwchradd cyfartalog.
Technegwyr	£204.36	£204.36	£204.36	1 technegydd i bob 120 o ddisgyblion
Gweinyddiaeth	£13.38	£13.38	£13.38	8% o'r gyllideb weinyddol gyfan (92% wedi'i dyrannu drwy gyfandaliadau)
Goruchwylwyr Canol Dydd	£91.04	£91.04	£91.04	1 goruchwylwr canol dydd i bob 45 disgybl.
Cyflenwi/Mamolaeth	£79.71	£79.71	£79.71	
Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	£1.27	£1.27	£1.27	
Adnoddau	£103.00	£103.00	£103.00	
Ffioedd Arholiadau		£138.00	£279.70	
Safleoedd	£130.31	£130.31	£130.31	Costau safleoedd gan gynnwys Atgyweiriadau, Cynnal a Chadw, Diogelwch, Cyfleustodau, Glanhau, Sbwriel, Ailgylchu. Mae dyraniad UDBO ar gyfer safleoedd yn cyfrif am 50% o gyfanswm y gyllideb. Dyrennir y 50% sy'n weddill yn ôl arwynebedd llawr.
CYFANSWM	£3,449.63	£4,531.70	£4,673.40	

Atodiad C**Crynodeb Fformiwla Ysgolion Prif Ffrwd**

Dyraniad	Dull	Cyllideb £'000	%
Athrawon (gan gynnwys CPA)	UDBO	£50,202	54.79%
Pennaeth	Cyfundaliad yn seiliedig ar ystod Penaethiaid	£5,623	6.14%
CCD (Cyfnod Sylfaen)	UDBO	£2,507	2.74%
Technegwyr	UDBO	£2,646	2.89%
Gweinyddu	Cyfundaliad yn seiliedig ar Nifer y Lleoedd a'r UDBO	£3,752	4.10%
Gofalwr	Cyfundaliad yn seiliedig ar Nifer y Lleoedd	£1,982	2.16%
Goruchwylwyr Canol Dydd	UDBO	£1,786	1.95%
Gwiriadau'r GDG	UDBO	£26	0.03%
Salwch/Mamolaeth	UDBO	£1,649	1.80%
CYFANSWM STAFFIO		£70,174	76.5%
AAA (sy'n cael ei wario fel arfer ar staffio)	Cyfundaliadau canolfan adnoddau, dyraniadau ysgolion yn seiliedig ar CDUau/SAP/Datganiad	£6,252	6.82%
Safleoedd a Thiroedd	UDBO ac arwynebedd llawr	£7,682	8.38%
Adnoddau	UDBO	£2,797	3.05%
Prydau Ysgol	Hawl i gael prydau ysgol am ddim	£1,885	2.06%
Lwfansau	Ysgolion llai, Dau safle, cyfieithu, cyfuno a phontio	£1,264	1.38%
Cymorth Canolog	Cyfundaliadau	£934	0.98%
Clwb Brecwast	Ariannu disgyblion	£668	0.73%
CYFANSWM		£91,656	100%

Sylwer – Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys y grant ôl-16 sef £6.799M